Newyddion gan Ddiogelwch Ffyrdd Cymru

"Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Gorffennaf 2006 — Rhifyn 1

Yn y Rhifyn hwn:

- **Pass Plus Cymru**
- **BikeSafe Cymru**
- **Gwirio Gwisgo Gwregysau Diogelwch**
- **Ar y ffôn ar y lôn**
- **Mwy nag erioed o droseddau moduro**
- **Gyrwyr hŷn**
- **Gyrru dan ddylanwad cyffuriau**
- **Tystysgrif o Gymhwysedd Proffesiynol**
- **Deddfwriaeth newydd ar atalfeydd plant**
- **Ystadegau ynghylch cyflymdra**
- **Marwolaethau ar ffyrdd yr Undeb Ewropeaidd**
- **Anafiadau mewn damweiniau traffig ffyrdd ar hyd a lled y byd**

Pass Plus Cymru

Yn Eisteddfod yr Urdd yn Rhuthun ar 1 Mehefin fe lansiwyd menter fawr i geisio taclo'r cyfraddau uchel o yrwyr a theithwyr ifanc sy'n cael eu lladd a'u hanafu ar ffyrdd Cymru.
Nod cynllun hyfforddi gyrwyr Pass Plus Cymru yw rhoi i yrwyr ifanc ragor o sgiliau a phrofiad gyrru i helpu i gwtogi ar y risg iddynt fod mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd. O'r 130 o yrwyr a theithwyr a laddwyd ar ffyrdd Cymru yn 2005, yr oedd 59 ohonynt rhwng 16 a 25 oed, sef 45% o gyfanswm y marwolaethau.

Achoswyd llawer o'r rheiny gan gamgymeriadau syml wrth yrru, a hynny oherwydd diffyg sgiliau a phrofiad. Mae Pass Plus Cymru wedi'i ddatblygu i ymladd y broblem hon. Bydd y cynllun, sy'n fersiwn helaethach o gynllun Pass Plus yr Asiantaeth Safonau Gyrru, yn cynnwys sesiwn rhyngweithiol ar theori am deirawr a diwrnod o hyfforddiant ymarferol mewn car. Bydd ar gael i bawb dros 17 oed yng Nghymru, a gorau oll os cymerir ef cyn pen blwyddyn ar ôl pasio'r prawf gyrru. Diolch i gyllid pwrpasol gan Lywodraeth y Cynulliad, caiff cyrsiau Pass Plus Cymru gymhorthdal mawr gan holl awdurdodau lleol Cymru. Mae'r cynllun, a reolir gan MAC Driving Excellence, hefyd wedi denu cefnogaeth Direct Line Insurance. Gall gyrwyr archebu cwrs drwy fynd i www.gyrwyrcymru.com a chlicio ar logo Pass Plus Cymru.

pass plus cymru

BikeSafe Cymru

Daeth Beicwyr Modur o bob un o bedwar heddlu Cymru i Fae Caerdydd ddydd Iau 11 Mai i bwysleisio wrth feicwyr modur a'u perthnasau a'u cyfeiliwn fod angen i bob beiciwr gael hyfforddiant priodol i feistroli'r sgiliau perthnasol.

Mae BikeSafe - Pontio'r Bwlch, menter gan bedwar Heddlu Cymru gyda chefnogaeth y Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Leol, yn helpu i asesu beicwyr modur a'u cynghori ynghylch y ffordd orau o farchogaeth eu beic, a gwneud hynny'n ddiogel. Gan fod beicwyr modur ddeugain gwaith yn fwy tebyg o gael eu lladd na gyrwyr ceir, mae'n hanfodol i feicwyr fanteisio ar y cyfle i gael rhagor o hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gallu eu diogelu eu hunain ar y ffordd.

Ers 1 Ionawr 2000, mae bron 200 o feicwyr modur wedi'u lladd ar ffyrdd Cymru. Gan i'r mwyafrif o'r damweiniau angheuol hynny ddigwydd ar ffyrdd gwledig, nid mater o wrthdaro yn erbyn cerbyd arall oedd hi gan amlaf. Yr oedd llawer o'r beicwyr yn ymweld â Chymru, ond yn rhy aml, yn anffodus, doedden nhw ddim yn ddigon medrus i reoli eu beiciau. Mae ffyrdd cefn gwlad Cymru'n ddeniadol iawn i feicwyr, yn enwedig y rhai sydd â'r beiciau mwyaf pwerus.

Rhoes y Dirprwy Weinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau yn Llywodraeth y Cynulliad, Tamsin Dunwoody, ei dillad motobeicio amdani i roi ei chefnogaeth i'r fenter.
www.bikesafe.co.uk

Gwirio gwisgo gwregysau diogelwch yn dal 3,000 o fodurwyr

Pan wiriodd yr heddlu faint o bobl oedd yn torri'r deddfau ar wisgo gwregysau diogelwch, cafwyd bod y nifer yng Nghymru wedi mwy na dyblu. Daliwyd dros 3,000 o bobl a chawsant hysbysiad cosb-benodedig o £30. Mae hynny'n cymharu â'r 1,115 a ddaliwyd mewn ymgyrch debyg yn 2005.

Yr oedd yr ymgyrch bythefnos o hyd, a lansiwyd ar 14 Mawrth, yn cynnwys pob un o bedwar heddlu Cymru. Meddai'r Prif Arolygydd Phil Davies o Heddlu Dyfed-Powys, "Yn anffodus, mae gormod o bobl yn credu bod gwisgo gwregys diogelwch yn fater o ddewis. Mae angen i yrwyr a theithwyr sydd heb fod yn gwisgo gwregysau sylweddoli nid yn unig y gallwch chi gael eich anafu'n ddifrifol mewn damwain ond y gallwch chi farw."

Cynnydd yn nifer y gyrwyr sy'n cael eu dal ar y ffôn

Mae nifer y modurwyr sydd wedi'u dal yn gyrru ac yn defnyddio ffonau symudol wedi codi bron 75 y cant mewn blwyddyn.

Mae ffigurau 45 o'r 52 o heddluoedd ym Mhrydain yn dangos i nifer yr hysbysiadau cosb-benodedig a roddwyd i yrwyr a ddaliwyd yn defnyddio ffôn ar y lôn godi o 80,000 yn 2004 i fwy na 140,000 y llynedd.

Er mai'r dull mwyaf cyffredin, o hyd, o ddal gyrwyr yw gan batrôl, mae gweithredu'r cynllun Adnabod Platiau Rhif yn Awtomatig hefyd wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer y dirwyon.

Mwy o gyflawni troseddau moduro nag erioed o'r blaen

Mae nifer y troseddau moduro yng Nghymru a Lloegr wedi codi i 13.5m – mwy nag erioed o'r blaen.

Mae ffigurau'r Swyddfa Gartref yn dangos bod dros 11m o hysbysiadau cosb-benodedig wedi'u rhoi yn 2004, a 7m ohonynt gan wardeiniaid parcio.
Mae'r ystadegau'n cadarnhau bod cynnydd enfawr wedi bod dros y degawd diwethaf – o 8m o droseddau ym 1994 i 13.5m yn 2004.

Cadw Prydain i yrru'n hirach ac yn fwy diogel

Mae ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos y gall y nifer cynyddol o yrwyr hŷn ym Mhrydain ddal i yrru'n ddiogel ymhell i'w henaint.

Mae nifer y gyrwyr hŷn ar fin cynyddu'n aruthrol gan i ymchwil ddangos y bydd 40% o ddeiliaid trwyddedau'n 60 neu'n hŷn erbyn 2050, a chwarter y nifer dros 70 oed. Dywed yr ABI y bydd cael mwy a mwy o yrwyr hŷn yn un o'r problemau moduro mawr yn y ganrif hon a bod y diwydiant yswiriant eisoes yn ymateb yn gadarnhaol. Cyfartaledd y terfyn oedran i gwsmeriaid newydd hŷn yw 82, o'i gymharu â 74 ddeg mlynedd yn ôl.
Gallwch lwytho copïau o'r ymchwil, *Responding to an ageing population: road safety, mobility and insurance*, i lawr drwy glicio ar y cyswllt hwn:

http://www.abi.org.uk/Display/File/Child/611/Older_Drivers_Doc.pdf

Gyrru dan ddylanwad cyffuriau

Gyrwyr dan ddylanwad cyffuriau yn osgoi cael eu harestio.

Bydd dros un o bob tri modurwr sy'n gyrru ar ôl cymryd cyffuriau anghyfreithlon yn pasio profion alcohol ar ochr y ffordd, yn ôl astudiaeth.

Gwelodd yr astudiaeth gan Brifysgol Glasgow, a gomisiynwyd gan y Llywodraeth, fod yr heddlu wedi methu â sylwi ar unrhyw amhariad ar yrru 36% o'r gyrwyr a roddodd samplau o waed, troeth neu boer yn ddiweddarach ac y gwelwyd eu bod wedi cymryd cyffuriau anghyfreithlon.

Rhybudd ynghylch moddion neu ffisig i yrwyr.

Yn ôl Sefydliad yr RAC, mae dros dair miliwn o fodurwyr yn defnyddio moddion neu ffisig a allai amharu ar eu gyrru.

Mae'r Sefydliad wedi galw am roi labeli rhybuddio cliriach ar foddion neu ffisig sy'n amharu ar yrru. Honnir bod mwy na chant o'r mathau o foddion neu ffisig y gallwch chi eu prynu dros y cownter amharu ar eich gyrru. Yn eu plith mae moddion/ffisig llacio a thabledi gwrth-histamin.

Mae Andrew Dismore, AS o Lundain, wedi cyflwyno i'r Senedd Fesur sy'n galw am roi gwell gwybodaeth i yrwyr am y moddion neu'r ffisig y gallan nhw fod yn ei gymryd.
Mae Sefydliad yr RAC eisoes wedi galw am system goleuadau-traffig sy'n dangos golau coch ar y cyffuriau sy'n debyg o amharu ar adweithiau gyrwyr, golau melyn ar gyffuriau a allai olygu ei bod hi'n ddoethach peidio â gyrru, a golau gwyrdd ar gyffuriau y credir ei bod hi'n ddiogel i yrwyr eu cymryd.

http://www.racfoundation.org/index.php?option=com_content&task=view&id=362&Itemid=35

Tystysgrif o gymhwysedd proffesiynol i yrwyr

Mae'r ddeddf sy'n creu Tystysgrif o Gymhwysedd Proffesiynol i Yrwyr yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth sy'n cael ei gyflwyno ledled Ewrop fel mesur diogelwch ar y ffyrdd i yrwyr lorïau a bysiau.

Caiff rheolau newydd ynghylch ymgymhwyso, a chael hyfforddiant i ddal i fod wedi ymgymhwyso, eu cyflwyno yn 2008 i yrwyr bysiau ac yn 2009 i yrwyr lorïau.

Er na fydd yn rhaid i'r gyrwyr presennol lwyddo i gael y cymhwyster cychwynnol, bydd gofyn iddynt gael hyfforddiant bob pum mlynedd. Bydd gyrwyr proffesiynol yn gorfod cadw eu tystysgrif yn ddilys drwy gwblhau cyfanswm o 35 awr o hyfforddiant achlysurol dros bum mlynedd. Ni fydd gofyn iddynt gymryd prawf ychwanegol.

I gael gwybod rhagor, ewch i: www.dsa.gov.uk

Rheolau sy'n canolbwyntio ar blant

Mae'r Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd, Steven Ladyman, wedi cyhoeddi manylion y rheoliadau newydd sydd ar y gweill i geisio gwella diogelwch ar y ffyrdd drwy sicrhau defnyddio mwy priodol ar atalfeydd plant.

Dywed Dr Ladyman "Bydd y mwyafrif o bobl yn sicrhau bod eu plant yn defnyddio rhyw fath o atalfa wrth deithio ar y ffordd, ond mae'n hanfodol bwysig defnyddio'r un iawn, a pheidio â defnyddio gwregys oedolyn cyn i'r plentyn fod yn ddigon mawr. Amcangyfrifwn y gallai'r newidiadau hyn rwystro dros 2,000 o farwolaethau neu anafiadau i blant bob blwyddyn."

Yn ôl ymchwilwyr yng Nghanolfan Ymchwil Prifysgol Loughborough i Ddiogelwch Cerbydau, bydd y rheoliadau newydd yn arbed bywydau. Eu casgliad hwy yw bod plant ar hŷn o bryd yn cael eu symud yn rhy gynnar o un atalfa i'r llall neu i wregys diogelwch i oedolyn. Bydd hynny'n arwain at anafiadau diangen o ddifrifol, ac weithiau'n angheuol.

Dyma grynodeb o'r gofynion newydd o ddydd Llun 18 Medi ymlaen:

- Rhaid i bob plentyn dan dair oed ddefnyddio atalfa briodol i blentyn os yw'n teithio mewn car neu gerbyd nwyddau (ac eithrio yng nghefn tacsi os nad oes sedd plentyn ar gael)
- Rhaid i blentyn sy'n dair oed neu'n hŷn a hyd at 135 cms (rhyw 4 tr 5 modfedd) o daldra ddefnyddio atalfa briodol i blentyn wrth deithio mewn car neu gerbyd nwyddau sydd â gwregysau diogelwch ynddo (prin yw'r eithriadau sy'n cael eu caniatáu)
- Rhaid peidio â defnyddio seddau baban sy'n wynebu tuag yn ôl ar seddau sydd â bag aer ar waith yn y tu blaen
- Os darperir gwregysau diogelwch, ni chaiff nifer y bobl a gaiff eu cario yng nghefn cerbydau beidio â bod yn fwy na nifer y seddau sydd yno ac sydd â gwregysau diogelwch neu atalfeydd plant (bydd hyn yn gymwys o fis Mai 2009 ymlaen)

Y gosb i droseddwyr yw hysbysiad cosb-benodedig o £30 neu ddirwy o hyd at £500 os aiff yr achos gerbron llys.

Dal i yrru'n rhy gyflym

Mae'r Adran Gludiant wedi cyhoeddi ystadegau cenedlaethol ynghylch cyflymdra cerbydau ym Mhrydain yn 2005.

Mae'r ystadegau'n ymwneud â'r cyflymder y bydd gyrwyr yn dewis ei yrru mewn amodau rhydd ar draws y rhwydwaith ffyrdd yn gyffredinol. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai bach iawn o newid oedd yn y gyfran o fodurwyr a oedd yn torri'r terfyn cyflymdra yn 2005 o'i gymharu â 2004 er bod maint y gyrru dros y terfyn cyflymdra yn dal i fod yn uchel ar bob math o ffordd.

Ar ffyrdd â therfyn cyflymdra o 30 mya

- Torrodd 50 y cant o geir y terfyn hwnnw yn 2005 o'i gymharu â 53 y cant yn 2004
- Teithiodd 21 y cant ohonynt yn gynt na 35 mya, o'i gymharu â 22 y cant yn 2004.

Ar ffyrdd â therfyn cyflymdra o 40 mya

- Torrodd 25 y cant o geir y terfyn hwnnw, o'i gymharu â 27 y cant dros y tair blynedd diwethaf (2002-2004), a theithiodd naw y cant ohonynt dros 45 mya o'i gymharu â 10 y cant dros y tair blynedd blaenorol.

Ar ffyrdd eraill (heb adeiladau bob ochr iddynt)

Teithiodd dros hanner y ceir ar draffyrdd a 48 y cant o geir ar ffyrdd deuol yn gynt na'r terfyn cyflymdra; teithiodd 19 y cant o'r ceir ar draffyrdd ac 13 y cant ar ffyrdd deuol dros 80 mya.

www.dft.gov.uk

Beirniadu hallt ar gynnydd gwael

Nid yw marwolaethau ar y ffyrdd yn gostwng yn ddigon cyflym yng ngwledydd yr Undeb Ewropeaidd i gyrraedd y targed o ostwng y marwolaethau i 25,000 y flwyddyn erbyn 2010.

Mae Cyngor Diogelwch Cludiant Ewrop yn drwm ei lach ar y cynnydd gwael hwn. Dywed mai siomedig yw canlyniad yr adolygiad canol-tymor o'r 3edd Raglen Weithredu ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd am nad yw'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cadw at ei addewid i gynnig deddfu pe na bai cryn ostyngiad yn nifer y marwolaethau. Er bod ambell wlad wedi gwneud yn dda iawn, nid yw polisi'r Undeb ar ddiogelwch ar y ffyrdd yn llwyddiant o bell ffordd ac mae'r bwlch rhwng y gwledydd sy'n gwneud orau a gwaethaf yn lledu, meddai'r Cyngor. Amcangyfrif y Comisiwn yw i ryw 41,600 o bobl gael eu lladd ar ffyrdd Ewrop yn 2005, sef gostyngiad o ddim ond 17.5% ers 2001, ac felly ymhell islaw'r 25% y mae ei angen i'r Undeb fod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o haneru marwolaethau ar y ffyrdd erbyn 2010.

Mae ffigurau'r Comisiwn Ewropeaidd yn dangos bod cryn gynnydd wedi'i wneud yn rhai o'r Aelod-Wladwriaethau. Yn 2005, cafwyd 8000 yn llai o farwolaethau ar y ffyrdd nag yn 2001. Ond gan nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud, bydd angen ymdrechu ymhellach, ar y lefel genedlaethol ac Ewropeaidd, i gyflawni'r nod o haneru nifer y marwolaethau ar y ffyrdd erbyn 2010. Ar sail y gyfradd bresennol, mae'n debyg y bydd 32,500 o farwolaethau ar y ffyrdd yr Undeb Ewropeaidd erbyn 2010, ac nid uchafswm o 25,000.

www.etsc.be

Epidemig cudd yr anafiadau o ddamweiniau ar y ffyrdd ledled y byd

- Mae'n debyg bod 1.2 miliwn o bobl yn cael eu lladd ar ffyrdd ar hyd a lled y byd bob blwyddyn, sef dros 3,000 o bobl y dydd.
- Mae'n debyg bod 50 miliwn o bobl yn cael eu hanafu mewn damweiniau ar y ffyrdd ar hyd a lled y byd bob blwyddyn – 15 miliwn ohonynt yn ddifrifol.
- Mae'n debyg mai cyfanswm y gost i economi gwledydd isel a chanolig eu hincwm yw US$ 65 biliwn - $100 biliwn, sef mwy na'r cymorth datblygu y maen nhw'n ei gael.
- I ddynion 15-44 oed, anafiadau mewn damweiniau ar y ffyrdd yw ail brif achos afiechyd a marw cyn-pryd ledled y byd (daw'n ail i HIV/AIDS).
- Erbyn 2020, oni chaiff camau eu cymryd, mae'n debyg y bydd nifer yr anafiadau a fydd yn deillio o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd yn codi rhyw 65 y cant.
- Mewn gwledydd isel a chanolig eu hincwm y ceir dros 80 y cant o'r marwolaethau mewn damweiniau traffig ar ffyrdd ar hyd a lled y byd.

Ewch i: www.globalroadsafety.org

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2006 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl.

Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com

02920 250 600